



Cynllunio Seilwaith
Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau 0303 444 5000
Cwsmeriaid:
e-bost: wylfa@planninginspectorate.gov.uk

I bawb sydd â diddordeb fel y rhestrir
isod

Eich Cyf:

Anfonwyd drwy e-bost

Ein Cyf: EN010007

Dyddiad: 3 Ebrill 2019

Annwyl Syr/Fadam

**Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) Adran 89 a Rheolau Cynllunio
Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd) – Rheol 17**

**Cais gan Horizon Nuclear Power am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar
gyfer Prosiect Wylfa Newydd**

Chais am Wybodaeth Ychwanegol

Rydym yn ysgrifennu i'ch hysbysu o'r cais am wybodaeth bellach gan yr Awdurdod
Arholi (ExA) sydd wedi'i nodi yn Atodiad A i'r llythyr hwn ac mae'n cynnwys
cwestiynau i'r partion canlynol:

- Horizon Nuclear Power (Yr Ymgeisydd)
- Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM)
- Cyffoeth Naturiol Cymru (NRW)
- Llywodraeth Cymru (WG)
- CADW
- National Grid Electricity Transmission (NGET)
- SPManweb
- Dŵr Cymru
- Nuclear Decommission Authority (NDA)
- Magnox
- Network Rail

A fydddech cystal ag ymateb erbyn y Terfynau Amser a nodir yn Atodiad A sydd naill
ai'n **Dyddiad Cau 9 - Dydd Mercher 10 Ebrill 2019 ney Terfyn Amser 10 - 17
Ebrill**.

Byddai'r AA yn ddiolchgar pe gallai pob unigolyn a enwir ateb yr holl gwestiynau sydd
wedi'u cyfeirio atynt, gan roi ymateb sylweddol neu nodi nad yw'r cwestiwn yn
berthnasol iddynt am reswm. Nid yw hyn yn atal unigolyn nad yw cwestiwn wedi'i
gyfeirio ato/ati rhag ateb y cwestiwn hwnnw os yw'n berthnasol i'w
fuddiannau/buddiannau.

Yn gywir
Frances Fernandes

Frances Fernandes
Aelod Arweiniol y Panel o Arolygwyr Archwilio

Atodiad A - Cais am wybodaeth bellach

Nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.
Darllenwch ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#) cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
R17.1	Bioamrywiaeth		
R17.1.1	Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)	D9	A yw CNC yn fodlon bod y cynlluniau monitro a lliniaru ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Tre'r Gof a Chae Gwyn bellach wedi'u sicrhau yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO) [REP8 – 029]
R17.1.2	CNC	D9	A yw CNC yn fodlon bod Adran 7.6 [REP8-049] yn darparu eglurhad ar sut y bydd llwch yn cael ei fonitro mewn amser real ar y safle a sut y bydd rheolaeth briodol, lle bo'r angen, yn cael ei gweithredu i reoli gormodiant o lwch? Os na, pa newidiadau y byddai'n eu hawgrymu?
R17.1.3	Yr Ymgeisydd	D9	A all yr Ymgeisydd esbonio pam ei fod o'r farn nad oes angen Archwiliadau Cydymffurfiaeth Ecolegol i ddangos bod mesurau lliniaru wedi'u gweithredu'n briodol?
R17.1.4	Yr Ymgeisydd	D9	A yw'r Ymgeisydd yn bwriadu cynnwys y gofyniad a gynigir gan CNC [REP7-012, 4.2.2] am gridiau madfallod dŵr ar draws pwyntiau mynediad ar gyfer y safle yn Is-god Ymarfer Adeiladu (SCoCP) y safle Parcio a Theithio?
R17.1.5	Yr Ymgeisydd	D9	Yn [REP7-001, App 1-2] rhoddodd yr Ymgeisydd gadarnhad o gyllid wedi'i glustnodi ar gyfer monitro sylfaenol. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys monitro dŵr daear a dŵr wyneb yn unig. Yn y Crynodebau yn Dilyn y Gwrandawiadau Llafar ar gyfer dydd Llun 4 Mawrth 2019 [REP7-001] yn 5 (e) (i) mae'r Ymgeisydd yn datgan ei fod yn bwriadu parhau i fonitro ymlusgiaid yn Nhre'r Gof, lle mae hyn wedi'i sicrhau?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
R17.2	Gorchymyn Caniatâd Datblygu		
R17.2.0	Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) Llywodraeth Cymru (LIC) CNC	D9	A yw Partion â Buddiant eisiau ymateb i'r materion a godwyd yn REP8-004 y Gofrestr Materion sy'n Weddill y DCO?
R17.2.1	Yr Ymgeisydd	D10	Darparu dDCO terfynol wedi'i ddiweddarau ac unrhyw ddiweddariadau angenrheidiol i ddogfennau dilynol, gan gynnwys unrhyw newidiadau a wnaed ers cyflwyno dDCO Terfyn Amser 8 [REP8-029].
R17.2.2	CNC	D9	A all CNC gadarnhau ei fod bellach yn fodlon bod eglurder yn y DCO drafft ynghylch rolau'r awdurdod cyflawni, y gofynion y mae'n eu hystyried yn berthnasol i'r gwaith morol, a materion gweithdrefnol sy'n codi o Atodlen 19, fel y gofynnwyd yn [REP7-012, 3.1. 2].
R17.2.3	Yr Ymgeisydd	D9	Darparu fersiwn sy'n olrhain newidiadau o'r Datganiad Cyllido a gyflwynwyd ar gyfer D8 [REP8-038].
R17.2.4	Yr Ymgeisydd	D9	Darparu unrhyw sylwadau mewn ymateb i'r Farn Gyfreithiol a ddarparwyd gan Land & Lakes Limited [REP8-076] ynghylch y defnydd arfaethedig o amod/gofyniad math 'Grampian' a fyddai'n atal datblygiad hyd nes bod cynllun wedi'i gyflwyno i CSYM mewn perthynas â llety gweithwyr dros dro. Gan gyfeirio'n benodol at p'un ai y byddai darparu llety gweithwyr dros dro oddi ar y safle yn bygwth hyfywedd y cynllun i'r fath raddau fel na fyddai unrhyw obaith realistig y gellid gweithredu'r cynllun – cefnoger hyn â thystiolaeth.
R17.2.5	Yr Ymgeisydd	D9	<u>Rhai sylwadau cyffredinol ar ddrafftio DCO</u> Cyn paratoi'r DCO terfynol, nodwch y cyngor yn <i>Nodyn Cyngor Pymtheg: Lluio Gorchymynion Caniatâd Datblygu</i> , e.e. argymhellir:

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
			<ul style="list-style-type: none"> osgoi defnyddio'r gair "bydd" – felly, dylid ystyried y defnydd o "bydd" yn y dDCO a naill ai rhoi gair derbynol arall yn ei le neu gadarnhau ei fod yn ddrafftiaid priodol ac nid oes unrhyw amwysedd ynghylch yr ystyr. osgoi hynafiaith (noder y defnydd o "dywededig" ym mharagraff 45 yn Rhan 5) a sicrhau y caiff unrhyw hynafiaith ei ddileu gan roi drafftiaid modern priodol yn ei le.
R17.2.6	Yr Ymgeisydd CSYM CNC	D9	<p>Erthygl 2 - Dehongli</p> <p>(a) Beth yw'r broses ar gyfer ymgynghori â'r Ymgeisydd ar gynnwys Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y partion mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer yr 'awdurdod cyflawni'? [REP8-004] Cofrestr Materion sy'n Weddill y DCO]</p> <p>(b) A ddylai fod amserlen/mecanwaith cytunedig ar gyfer cael cytundeb?</p>
R17.2.7	Yr Ymgeisydd CSYM CNC	D9	<p>Erthygl 2 - Dehongli / Atodlen 19</p> <p>Ychwanegwyd cymal newydd gan yr Ymgeisydd i Atodlen 19:</p> <p><i>(4) Pan wneir cais mewn perthynas â Gwaith sydd â mwy nag un awdurdod cyflawni, rheolir cyflawni'r ceisiadau hynny yn unol â memorandwm cyd-ddealltwriaeth y cytunir arno rhwng yr ymgymwrwr, CSYM a CNC. [REP8-004] Cofrestr Materion sy'n Weddill y DCO]</i></p> <p>Os na ellir dod i gytundeb rhwng y partion, a ddylid gwneud darpariaeth ar gyfer gweithredu mecanwaith cymrodeddu?</p>
R17.2.8	Yr Ymgeisydd CSYM LIC	D9	<p>Erthygl 5 – Effaith y Gorchymyn ar y Caniatâd Paratoi Safle</p> <p>Mae'r Apelydd yn esbonio pam, yn ei farn ef, na fyddai'n briodol i newid y diffiniad o Waith Paratoi a Chlirio Safle [REP8-004] Cofrestr Materion sy'n Weddill y DCO]</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
			<p>(a) A yw CSYM, fel yr awdurdod cyflawni/gorfodi, yn fodlon â'r drafftiaid hwn?</p> <p>(b) Os na, pam, a pha ddrafftiaid amgen fyddai CSYM yn ei gynnig?</p>
R17.2.9	Yr Ymgeisydd Magnox / Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA)	D9	<p>Erthygl 9 – Caniatâd i drosglwyddo budd y Gorchymyn</p> <p>(a) A oes gan Magnox/NDA unrhyw sylwadau pellach ar ymateb D8 yr Ymgeisydd ym mharagraff 1.2.24? [REP8-004] Cofrestr Materion sy'n Weddill y DCO]</p> <p>(b) A fyddai cynnwys y diwygiad arfaethedig i Erthygl 9 fel y cynigiwyd gan Magnox/NDA yn ystyriaeth arall a allai wrthdaro â disgresiwn yr Ysgrifennydd Gwladol i gymeradwyo trosglwyddo?</p>
R17.2.10	Yr Ymgeisydd Magnox / NDA	D9	<p>Erthygl 9 – Caniatâd i drosglwyddo budd y Gorchymyn</p> <p>Mae'r Ymgeisydd yn cynnig cymal pwrpasol yn y darpariaethau amddiffynnol gyda NDA fel a ganlyn:</p> <p><i>29. Rhaid i'r ymgwymerwr beidio ag arfer unrhyw bŵer o dan y Gorchymyn hwn ar unrhyw ran o Safle'r NDA, oni bai bod yr ymgwymerwr wedi ymrwymo i gytundeb cydweithredu gyda'r NDA a Magnox i hwyluso datgomisiynu a dad-drwyddedu'r Safle sydd â Thrwydded Safle Niwclear (NSL) a chyflawni unrhyw ofynion statudol. [REP8-004-Cofrestr Materion sy'n Weddill y DCO]</i></p> <p>(a) Beth yw ystyr y term "cytundeb cydweithredu"; beth fyddai yn ei gynnwys fel arfer ac a ddylid diffinio'r term?</p> <p>(b) A yw diben cytundeb cydweithredu wedi'i gynrychioli'n gywir gan y geiriad "hwyluso datgomisiynu a dad-drwyddedu'r Safle sydd â Thrwydded Safle Niwclear (NSL)"?</p> <p>(c) A yw'n glir i bob parti beth yw "cytundeb cydweithredu"?</p> <p>(ch) A fyddai cymrodeddu yn dod i rym pe bai trafodaethau yn methu mynd ymhellach?</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
R17.2.11	Yr Ymgeisydd CSYM LIC CNC	D9	<p>Erthygl 9 – Caniatâd i drosglwyddo budd y Gorchymyn Cynigir diwygiad i Erthygl 9 gan yr Ymgeisydd:</p> <p><i>(4) Oni bai y caiff ei gymeradwyo fel arall gan yr Ysgrifennydd Gwladol, mae'n ofynnol i'r trosglwyddai a gymeradwyir o dan baragraff (1) roi gwarant gyfatebol neu fath arall o sicrwydd yn ei le ar adeg y trosglwyddiad i'r hyn sydd yn ei le ar adeg y trosglwyddiad o dan erthygl 83 y Gorchymyn hwn.</i></p> <p>(a) Beth fyddai'n atal y 'math arall' rhag bod yn llai cadarn na'r 'math o sicrwydd cyfatebol'?</p> <p>(b) Pwy fyddai'n penderfynu p'un ai oedd 'math arall' yn foddhaol?</p> <p>(c) Beth sydd i atal y 'math arall' rhag bod yn llai cadarn?</p> <p>(ch) Mae'n ymddangos nad oes unrhyw gyfyngiadau ar yr hyn y gallai math arall fod. Pwy fyddai'n penderfynu p'un ai yw'r math arall yn foddhaol?</p> <p>(d) A fyddai'r drafftiaid a osodir allan isod yn fwy eglur? 9. [...] (4) Oni bai y caiff ei gymeradwyo fel arall gan yr Ysgrifennydd Gwladol, mae'n ofynnol i'r trosglwyddai a gymeradwyir o dan baragraff (1) roi gwarant neu fath o sicrwydd yn ei le ar adeg y trosglwyddiad sy'n cyfateb i'r hyn sydd yn ei le ar adeg y trosglwyddiad o dan Erthygl 83 y Gorchymyn hwn.</p>
R17.2.12	Yr Ymgeisydd CSYM	D9	<p>Erthygl 18 (3) 'Rhaid i'r ymgwymerwr gynnal a chadw Gwaith Rhifau 8,9,10 ac 11, ac unrhyw stryd' [...]. Wrth ddileu'r testun yn ymwneud â'r gofyniad i waith cynnal a chadw gael ei wneud i foddhad rhesymol yr awdurdod priffyrdd, sut gellir sicrhau bod y gwaith cynnal a chadw yn foddhaol/neu ba fath o waith cynnal a chadw a allai fod yn ofynnol yn rhesymol?</p>
R17.2.13	Yr Ymgeisydd	D9	<p>Erthygl 19 Adolygu'r rhifo a'r defnydd o benawdau yn yr Erthygl hon.</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
R17.2.14	Yr Ymgeisydd	D9	<p>Erthygl 28 – Terfyn amser ar gyfer arfer awdurdod i gaffael tir yn orfodol Erthygl 31 – Caffael isbridd yn unig Erthygl 33 – Addasu Deddf 1965</p> <p>Mae REP7-035 yn gofyn am gyfnod ychwanegol ar gyfer cychwyn y datblygiad a gynigir o 5 i 6 mlynedd, ond cyfnod hwy (5 i 8 mlynedd) ar gyfer gweithredu'r pwerau Caffael Gorfodol a geisir. Er y gall yr amser ychwanegol a gynigir ar gyfer Caffael Gorfodol alluogi pobl sydd â thir a hawliau i'w cadw am gyfnod hwy, gallai hefyd ymestyn unrhyw ymdeimlad o ansicrwydd a gohirio cwblhau'r caffaeliadau.</p> <p>(a) A oes unrhyw dystiolaeth i ddangos y byddai'r personau a effeithir yn dymuno cyfnod hwy cyn y gweithredir Caffael Gorfodol? (b) Yn ogystal, pam y ceisir estyniad hwy ar gyfer gweithredu Caffael Gorfodol o gymharu â'r flwyddyn ychwanegol a geisir nawr [hefyd drwy REP7-035] ar gyfer dechrau'r datblygiad a gynigir?</p>
R17.2.15	Yr Ymgeisydd	D9	<p>Erthygl 35 – Defnydd tir dros dro ar gyfer cyflawni'r datblygiad awdurdodedig</p> <p>Dylid cadarnhau cwmpas y math a'r defnydd o'r '<i>...adeiladau...</i>' y cyfeirir atynt yn dDCO Erthygl 35 (1)(b) a (c) ac Erthygl 35 (4)(a).</p>
R17.2.16	Yr Ymgeisydd	D9	<p>Erthygl 84</p> <p>(a) O ystyried yr amgylchiadau penodol mewn perthynas â phrosiect Wylfa Newydd, yn ogystal â'r rhwymedigaeth arfaethedig i 'ddarparu gwybodaeth i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i fod yn fodlon bod y datblygiad awdurdodedig yn debygol o gael ei weithredu ac na fydd yn cael ei atal oherwydd anawsterau o ran cyrchu a sicrhau'r cyllid angenrheidiol'; a ddylai Erthygl 84 gael ei chryfhau ymhellach drwy ychwanegu gofyniad bod yr ymgymwrwr yn rhoi tystiolaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol o sefyllfa ariannol</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
			<p>ddigonol i allu cyrchu/sicrhau'r cyllid angenrheidiol ar gam diweddarach er mwyn gweithredu'r cynllun, ac os na, pam felly?</p> <p>(b) Awgrymu sut y gellid adolygu Erthygl 84 (1)(a) i wneud newid o'r fath; a</p> <p>(c) Gosod allan y wybodaeth a fyddai'n ofynnol er mwyn darparu tystiolaeth ddigonol o'r sefyllfa ariannol ofynnol a lle y gellid sicrhau hyn o fewn y dDCO.</p>
R17.2.17	Yr Ymgeisydd CSYM	D9	<p>Atodlen 1 – Datblygiad Cysylltiedig Arall</p> <p>(a) "Hwylus" – A all yr Ymgeisydd ddarparu unrhyw enghreifftiau o awdurdod barnwrol (mewn cyd-destunau eraill) a fyddai'n rhoi rhyw syniad o'r terfynau y gellid eu cymhwyso ar gyfer y term "hwylus". [REP8-004-Cofrestr Materion sy'n Weddill y DCO]</p> <p>(b) Mae'n bosibl y bydd CSYM eisiau gwneud sylwadau.</p>
R17.2.18	Yr Ymgeisydd	D9	<p>Atodlen 1 – Datblygiad Cysylltiedig Arall</p> <p>Gan gyfeirio at y geiriad diwygiedig ar gyfer Gwaith Rhif 12 yn Atodlen 1 Datblygiad Awdurdodedig, rhodder cyfeirnod ar gyfer lluniad neu ddisgrifiad arall er mwyn sicrhau bod modd adnabod ffin yr Ardd Gegin.</p>
R17.2.19	Yr Ymgeisydd	D9	<p>Atodlen 3 – Gofynion</p> <p>(a) A ddylid diffinio'r term 'Cynllun Lliniaru Archaeolegol' yn y dDCO ac os na, pam felly?</p> <p>(b) Os dylid ei ddiffinio, dylid cynnwys geiriad addas sy'n cynnwys amlinelliad o'r materion y dylid eu trafod.</p>
R17.2.20	CSYM CNC LIC	D9	<p>Atodlen 3 – Gofynion</p> <p>Mewn ymateb i drafodaethau, gwnaed nifer o newidiadau i'r gofynion yn y dDCO ar Derfyn Amser 8. [REP8-010 -Tabl crynodeb o ddiwygiadau i'r DCO]</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
			<p>(a) A yw'r partion yn fodlon â'r drafftiaid fel y'i gosodir allan ar Derfyn Amser 8?</p> <p>(b) Os na, rhodder esboniad o hynny.</p> <p>(c) Os yw'n briodol, dylid darparu geiriad gwahanol i'w ystyried, neu nodi lle y darparwyd drafftiaid blaenorol.</p>
R17.2.21	Yr Ymgeisydd LIC	D9	<p>SPC8 Cynllun ymchwilio archaeolegol ysgrifenedig A ddylai SPC8 gyfeirio at y gofyniad am Gynllun Lliniaru Archaeolegol yn ogystal â Chynllun Ymchwilio Archaeolegol Ysgrifenedig? Os felly, dylid darparu geiriad diwygiedig, ac os na, dylid esbonio pam. Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru eisiau gwneud sylwadau.</p>
R17.2.22	Yr Ymgeisydd CSYM	D9	<p>WN1 [A] Cynlluniau draenio ar gyfer y gwaith adeiladu fesul cam a WN1 [B] Cynlluniau goleuo ar gyfer y gwaith adeiladu fesul cam:</p> <p>(a) Rhodder esboniad ar gyfer yr ychwanegiadau hyn gan nad yw'n ymddangos eu bod wedi'u hesbonio o fewn REP8 – Tabl Crynodeb o Ddiwygiadau i'r DCO.</p> <p>(b) A yw CSYM yn fodlon y byddai hyn yn caniatáu i ddiwygiadau gael eu gwneud i'r cynlluniau cyn belled â'u bod yn cael eu cyflwyno er gwybodaeth ddau fis cyn y newid, a'u bod yn gydnaws â'r cynllun trosfwaol perthnasol?</p> <p>(c) A ddylai unrhyw newidiadau gael eu cyflwyno ar gyfer eu cymeradwyo gan CSYM?</p> <p>(ch) A ddylai gwaith gael ei atal rhag ei wneud oni bai y ceir cymeradwyaeth gan yr awdurdod cynllunio lleol?</p>
R17.2.23	Yr Ymgeisydd CSYM	D9	<p>PR1 Cynlluniau Is-god Ymarfer Adeiladu safle Parcio a Theithio Dalar Hir Mae hyn yn nodi na fydd gwaith adeiladu'n dechrau hyd nes y bydd Cynllun Lliniaru Archaeolegol y safle Parcio a Theithio a Chynllun Goleuo'r safle Parcio a Theithio wedi'u cyflwyno ar gyfer eu</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
			cymeradwyo, a rhaid i'r rhain fod yn unol â manylion yn atodlen 21 (Dogfennau a Chynlluniau Rheoli). (a) A ddylai gwaith adeiladu beidio â dechrau hyd nes y bydd y cynlluniau wedi'u cymeradwyo gan CSYM (yn hytrach na chael eu cyflwyno'n unig ar gyfer eu cymeradwyo).
R17.2.24	CSYM	D9	LC3 (4) Cymeradwyo cynllun manwl y Ganolfan Logisteg A yw CSYM yn fodlon â 20 diwrnod gwaith i benderfynu a fydd cynlluniau, manylion a samplau sy'n ymwneud ag adeiladu'r Ganolfan Logisteg yn cael eu cymeradwyo a chymeradwyaeth dybiedig yn digwydd os na dderbynnir unrhyw ymateb o fewn yr amserlen hon?
R17.2.25	Yr Ymgeisydd	D9	LC 7 (1) Cynllun datgomisiynu Logisteg (a) Beth yw ystyr 'cychwyn y Ganolfan Logisteg'? Ai 'cychwyn datgomisiynu'r ganolfan Logisteg' ddylai hynny fod? (b) Mae'r sylwadau yn REP8 – Tabl Crynodeb o Ddiwygiadau i'r DCO yn crybwyll cychwyn y cyfleuster Parcio a Theithio ac nid y Ganolfan Logisteg, a yw hyn yn gywir?
R17.2.26	CSYM	D9	OH2 Lluniadau Cynlluniau Manwl - Gwaith Rhifau 8, 9A, 10 a 11 A yw CSYM yn fodlon â 20 diwrnod i roi cymeradwyaeth, gyda chymeradwyaeth dybiedig yn digwydd os na dderbynnir unrhyw ymateb o fewn yr amserlen hon?
R17.2.27	NGET SPEN/SP Manweb Dŵr Cymru Welsh Water CSYM NDA Magnox	D9	Atodlen 15 – Darpariaethau Amddiffynol (a) Cadarnhau pa faterion sydd heb eu datrys o ran y darpariaethau amddiffynol y dylid eu cynnwys yn Atodlen 15. (b) Rhoi eich safbwynt terfynol mewn perthynas â'r materion hynny, neu gadarnhau ym mha ddogfen yr Archwiliad y gellir dod o hyd i'ch safbwynt terfynol mewn perthynas â'r materion hynny.

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
	Network Rail Yr Ymgeisydd		
R17.2.28	Yr Ymgeisydd	D9	Rhoi cadarnhad ysgrifenedig gan bob parti o bob achos o dynnu'n ôl y gwrthwynebiadau i Gaffael Gorfodol.
R17.2.29	Yr Ymgeisydd	D9	Atodlen 21 – Dogfennau a Chynlluniau Rheoli Ym mha amgylchiadau na fyddai cynllun yn "unol yn gyffredinol â'r" egwyddorion a nodir yn y dogfennau a'r cynlluniau rheoli?
R17.2.30	Yr Ymgeisydd	D9	Atodlen 21 – Dogfennau a Chynlluniau Rheoli Gan gyfeirio at Gynllun Monitro Hydro-ecolegol SoDdGA Cae Gwyn Safle Datblygu Wylfa Newydd, mae'r dDCO yn datgan: <i>Bydd y cynllun yn cael ei baratoi yn unol â'r egwyddorion a osodir allan yn Adrannau 10 ac 11 Is-god Ymarfer Adelladu Safle'r Brif Orsaf Bŵer...</i> (a) Esbonier yr ymadrodd "yn unol â'r" (b) A ddylid defnyddio'r ymadrodd "i gydymffurfio â'r" yn lle hynny?
R17.2.31	Yr Ymgeisydd	D9	A ellir cyfeirio at y 'datganiadau dull' canlynol a nodiadau ôl-wrandawriad tebyg o fewn dogfennau neu gynlluniau rheoli'r DCO: (a) Atodiad 1-1 Nodyn Ôl-wrandawriad ar Eglurhad ynghylch Tomen D a Thomen E (b) Atodiad 1-2 Nodyn Ôl-wrandawriad ar Lefelau Tomen B (c) Atodiad 1-11 Nodyn Ôl-wrandawriad ar Ymddangosiad Datgomisiynu'r Safle dros gyfnod o 140 mlynedd
R17.3	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd		
R17.3.1	CNC	D9	Mae CNC yn ei Ddatganiad o Dir Cyffredin â'r Ymgeisydd [REP6-047, NRW130] yn cynghori na ellir diystyru effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle ar gyfer nodwedd Môr-wenoliaid Pigddu Ardal Gwarchodaeth Arbennig Aber Afon Dyfrdwy. Fodd bynnag, yn NRW68 a NRW79 mae

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
			CNC yn datgan bod y Cyfleusterau Gorsaf Bŵer Oddi ar y Safle a gynigir yn annhebygol o gael effaith niweidiol ar unrhyw Ardal Cadwraeth Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig neu safle Ramsar yng Nghymru. A yw pryderon CNC am gyfanrwydd Ardal Gwarchodaeth Arbennig Aber Afon Dyfrdwy yn berthnasol hefyd i safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy? Os na, pam felly?
R17.3.2	CNC	D9	A yw CNC yn fodlon â pharth lliniaru diwygiedig yr Ymgeisydd ar gyfer morfilod Minke o 800m oddi wrth weithgarwch adeiladu, fel y'i disgrifir yn y Rhaglen Monitro Mamaliaid Morol (MMMP) drafft a roddwyd i CNC fel rhan o'r Cais am Wybodaeth at gyfer Trwydded Forol?
R17.3.3	CNC	D9	Mae'r Ymgeisydd wedi darparu deunydd [REP8-043] i'w ystyried o dan Erthygl 4(7) mewn perthynas ag infertebratau benthig mewn perthynas ag Ynysoedd y Moelrhoniaid. A yw CNC yn fodlon, ac os na yw'n fodlon, pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen?
R17.3.4	CNC	D9	A oes gan CNC bryderon sy'n parhau ynghylch mesurau lliniaru er mwyn ymdrin ag effeithiau posibl ar gorff dŵr daear eilaidd Ynys Môn, yng ngoleuni Atodlen 21 ddiwygiedig yr Ymgeisydd, Rhan 2 y dDCO [REP8-029]?
R17.3.5	Yr Ymgeisydd	D9	Heb ragfarnu, a all yr Ymgeisydd ddarparu mecanwaith sicrhau yn y dDCO ar gyfer y cynigion iawndal y byddai eu hangen pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu y bydd effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle wrth gynnal Asesiad Priodol?
R17.3.6	Yr Ymgeisydd	D9	Heb ragfarnu, a all yr Ymgeisydd wneud darpariaeth wrth gefn o fewn y Cytundeb a106 ar gyfer cyflwyno iawndal Ardal Gwarchodaeth Arbennig pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod angen hynny.

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
R17.3.7	Yr Ymgeisydd	D9	Yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd strategol [APP-050, 5.6.4] mae'r Ymgeisydd yn datgan, "Ar ddiwedd y datgomisiynu, bydd y safle'n cael ei adfer i gyflwr terfynol cytunedig y bwriedir iddo fod yn gadarnhaol." Sut fyddai hyn yn cael ei sicrhau?
R17.4 Yr Amgylchedd Hanesyddol			
R17.4.1	Yr Ymgeisydd	D9	<p>(a) Mewn perthynas â'r gwaith archaeolegol ôl-gloddio ar gyfer yr ymchwiliadau archeolegol hynny a gwblhawyd eisoes yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd (WNDA) a'r Adroddiadau Cryno a Chynlluniau ar Safleoedd Archaeoleg a gyflwynwyd ar D8; a oes Cynllun Adfer ar gyfer cwblhau'r rhaglen waith lawn wedi'i sicrhau, gan gynnwys asesu, dadansoddi, adrodd, archifo cyhoeddiadau, a lledaenu ôl-gloddio fel y cytunwyd â Cadw a Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd (GAPS) mewn Cynlluniau Ymchwilio Ysgrifenedig a gyflwynwyd i CSYM, GAPS, a Cadw, ym mis Mehefin 2017 a mis Awst 2018?</p> <p>(b) Os na wnaed hyn, sut a phryd fydd y mater yn cael ei ddatrys?</p> <p>(c) Sut fyddai hyn yn cael ei gyllido a'i sicrhau? Paragraff 3.1.5 [REP7-003]</p>
R17.4.2	LIC/Cadw	D9	<p>(a) Rhoi allwedd i'r cynlluniau a ddarparwyd mewn perthynas â:</p> <ol style="list-style-type: none"> i. Chynllun cryno yn nodi lleoliad y tri safle archaeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol o fewn WNDA; a ii. Chynllun cryno yn nodi lleoliad y tri safle archaeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol mewn perthynas â Dyluniad y Prosiect. <p>(b) Yng ngoleuni'r Adroddiadau Cryno a'r Cynlluniau ar Safleoedd Archaeoleg a gyflwynwyd ar D8, a oes unrhyw gamau pellach y dylid eu cymryd i sicrhau bod y safleoedd archaeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael eu hymchwilio a'u cofnodi'n ddigonol yn unol â'r Cynlluniau Ymchwilio Ysgrifenedig a</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
			<p>gyflwynwyd i Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM), GAPS, a Cadw, ym mis Mehefin 2017 a mis Awst 2018, ac arfer gorau?</p> <p>(c) A oes bwriad i gofrestru'r safleoedd hyn, ac os felly, beth yw'r goblygiadau ar gyfer prosiect Wylfa Newydd ac unrhyw newidiadau canlyniadol i'r DCO? Paragraff 3.1.7 [REP7-003]</p>
R17.4.3	Yr Ymgeisydd	D9	<p>Gwaith Trin Dŵr Gwastraff</p> <p>(a) Sut fyddai effeithiau gweledol, sŵn ac arogl y gwaith o adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r gwaith trin dŵr gwastraff a gynigir yn cael eu lliniaru mewn perthynas â'r asedau treftadaeth canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> i. Parc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig Cestyll – gan gynnwys yr ardd gegin (HLT2) ii. Melin Flawd Restredig Gradd II* Felin Gafnan (Porth y Felin) (Ased 137), iii. Tŷ Sychu Grawn Rhestredig Gradd II (Felin Gafnan) (Ased 141), iv. Breuandy Rhestredig Gradd II (Felin Gafnan, Cylch-y-Garn) (Ased 144) <p>(b) Darparu croestoriad trwy'r Breuandy (Felin Gafnan, Cylch-y-Garn) (Ased 144), Gardd Ddyffryn Cestyll, y llecyn storio a gynigir a'r gwaith trin dŵr gwastraff a gynigir i ddangos gwahaniaethau mewn lefelau ac unrhyw sgrinio a gynigir.</p> <p>(c) Mae pwynt gweithredu 35 o'r Gwrandawriad Mater Penodol a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2019 yn gofyn am ddelweddu WNDA o'r AHNE ar draws Porth-y-pistyll, gan gynnwys golygfa o'r gwaith trin dŵr gwastraff parod a'r draethlin yn dilyn newidiadau, er mwyn deall y berthynas rhwng deunyddiau adeiladu a gynigir a'u lliw o fewn y dirwedd. Er gwaethaf y cyfyngiadau amser ar lunio'r delweddau hyn o fewn yr Archwiliad, byddant yn ddefnyddiol wrth ystyried Cynllun Draenio Trosfwaol Gwaith Adeiladu WNDA y cyfeirir ato yn Atodlen 21 (i fod yn 4) y dDCO; felly, gofynnir i'r Ymgeisydd:</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
			<ul style="list-style-type: none"> i. Baratoi'r delweddau y gofynnir amdanynt; ac ii. Esbonio pryd fyddant ar gael, naill ai yn yr Ymchwiliad neu wedi hynny. <p>(ch) Cadarnhau fod llun rhif Ffigwr 1-1 yn Atodiad 1-1 Ymateb Horizon Mewn Perthynas â Gwedd y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Adeiladu a gyflwynwyd ar D7 [REP7-001] yn dangos gwaith trin dŵr gwastraff 'parod' gan fod y ddogfennaeth yn cyfeirio at 'waith trin dŵr gwastraff' yn unig. Esbonier unrhyw wahaniaethau rhwng y ddau fath o osodiad.</p>
R17.4.4	Yr Ymgeisydd/LIC	D9	<p>Mewn perthynas â'r pynciau canlynol, y mae'n ymddangos nad ydynt wedi'u cytuno â LIC; dylid darparu diweddariad statws ac esboniad ynghylch sut y gellid datrys unrhyw anghytundebau sy'n parhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) effeithiau uniongyrchol posibl unrhyw gysgodi ar Ardd Cestyll oherwydd dyluniad diwygiedig yr Orsaf Bŵer a gwrthgloddiau ategol. (b) symud ac ailosod yr Ardd Gegin er mwyn lliniaru a gwella ased treftadaeth dynodedig o bwysigrwydd cenedlaethol. (c) Dull y Cynllun rheoli cadwraeth a gynigir o amgylch Lleoliad Hanfodol Gardd Cestyll a digonolrwydd y cyllid a fydd ar gael yng Nghytundeb Adran 106 y DCO.
R17.5	Tirwedd a Gweledol		
R17.5.1	Yr Ymgeisydd	D9	<p>Caffael plannu</p> <p>(a) A wnaed asesiad o gapasiti economi arddwriaethol Ynys Môn i ddarparu plannu o'r fath raddfa ac ystod (gan gyfeirio'n benodol at ddarpariaeth rhywogaethau planhigion brodorol/cynhenid) y bydd ei angen ar brosiect Wylfa Newydd?</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
			<p>(b) Os nad yw'r capasiti gofynnol ar gael, a all yr ymgymwrwr gymryd cyfrifoldeb uniongyrchol dros ddarparu'r stoc angenrheidiol o blanhigion a sut gellid sicrhau hyn yn y DCO?</p> <p>Ymateb Terfyn Amser 7 Horizon i Weithredu a bennwyd mewn Gwrandawiadau Materion Penodol ar 4 - 8 Mawrth Paragraff 1.7.1 [REP7-001]</p>
R17.5.2	Yr Ymgeisydd	D9	Sut fyddai effeithiau gweledol niweidiol ar dderbynyddion ac eiddo preswyl y tu allan i'r prif gymunedau, ond yn agos at WNDA, yn cael eu lliniaru yn ystod y gwaith adeiladu? Paragraff 5.1 [REP7-013]
R17.5.3	Yr Ymgeisydd/CSY M	D9	Darparu eglurhad, diweddariad ac unrhyw dystiolaeth bellach mewn perthynas ag Eitemau CSYM 0228 a CSYM 0249 yn y Datganiad o Dir Cyffredin gyda CSYM [REP8-019], fel materion na chytunwyd arnynt mewn perthynas â Thirwedd a Mwynderau Gweledol, gan gyfeirio'n benodol at y Canllawiau ar gyfer Tirwedd Asesiad Effaith Weledol (GLVIA3).
R17.6	Sŵn a Dirgryniad		
R17.6.1	Yr Ymgeisydd	D9	Cadarnhau eich safbwynt mewn perthynas â materion a godwyd yn: REP7-017, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â sŵn trawsnewidyddion a'r amgylchedd sŵn cyffredinol (allanol a mewnol); a REP7-003 Atodiad B, gan gynnwys materion mewn perthynas â chamau cynnar y Llety Gweithwyr Dros Dro.
R17.7	Economaidd-gymdeithasol		
Llety			
R17.7.1	CSYM	D9	Rhoi manylion faint o gartrefi gwag sydd ar Ynys Môn; faint o'r rhain sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Ynys Môn; faint o gartrefi gwag a ddychwelwyd i'w defnyddio yn ystod y pum mlynedd diwethaf trwy

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
			raglenni cartrefi gwag presennol y Cyngor; ar gyfartaledd, faint o amser mae'n ei gymryd ar hyn o bryd i ddychwelyd cartref gwag i'w ddefnyddio, ac ar gyfartaledd, faint o leoedd gwelyau y mae eiddo o'r fath yn eu darparu. Dylid cynnwys dolenni i'r ffynonellau/tystiolaeth sy'n rhoi'r atebion.
R17.7.2	CSYM	D9	Esboniwch y dystiolaeth/cyfrifiad ynglŷn â pham rydych bellach yn derbyn 2.5 gweithiwr yr uned (paragraff 5.4.2 Atodiad 1 REP7-014).
R17.7.3	CSYM	D9	Esboniwch pam mae cymhorthdal o £35,000 yn hytrach na £45,000 bellach yn cael ei gymhwysu ar gyfer cefnogi darpariaeth unedau adeiladu newydd, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith y byddai angen i'r unedau hyn ddarparu ar gyfer 2.5 gweithiwr yn hytrach na 2 weithiwr.
R17.7.4	CSYM	D9	Cynigir 1,400 o leoedd gwelyau yn y sector rhentu preifat a byddai 210 ohonynt mewn unedau adeiladu newydd. O ystyried y nifer o leoedd gwelyau sydd eu hangen, yn eich barn chi, pwy fyddai'r landlord ar gyfer yr unedau hyn, yn enwedig yr unedau adeiladu newydd? Beth sy'n cael ei gynnig i annog landlordiaid i fuddsoddi yn Ynys Môn?
R17.7.5	CSYM	D9	Rhodder manylion yr amserlen gyfartalog ar gyfer adeiladu cartref newydd ar Ynys Môn dros y deng mlynedd diwethaf a pha gyfradd adeiladu (h.y. faint y flwyddyn) fyddai'n ofynnol er mwyn darparu'r unedau newydd sydd eu hangen i letya gweithwyr a'r trigolion (gan gynnwys dadansoddiad o unedau sydd eu hangen i fodloni'r angen lleol presennol a'r unedau sydd eu hangen ar gyfer gweithwyr adeiladu)?
R17.7.6	CSYM	D9	Esbonier ymhellach beth yw'r 'pryderon yn ymwneud â ffyrdd' mewn perthynas â'r A5025 a fyddai'n atal cyflawni Campws y Safle yn gynnar a pham y byddai'r 'pryderon' hyn yn berthnasol i Gampws y Safle yn unig ac nid yr holl ddatblygiad yn WNDA (paragraff 2.4 Atodiad 1 REP7-014).

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
R17.7.7	CSYM	D9	Rhodder manylion y safleoedd tai a nodwyd gennych yng Ngogledd Ynys Môn yn y CDLI ar y Cyd; p'un ai oes gan y safleoedd hyn ganiatâd a faint o unedau y bwriedir i'r safleoedd hyn eu darparu a ph'un ai oes ganddynt ganiatâd cynllunio ar hyn o bryd. Rhodder y detholiadau perthnasol o'r CDLI ar y Cyd a manylion y caniatadau cynllunio perthnasol.
R17.7.8	CSYM	D9	Rhodder esboniad llawnach (wedi'i ategu gan dystiolaeth) ynghylch pam rydych bellach yn ystyried na fyddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar yr economi twristiaeth lleol gan gyfeirio'n benodol at lety i dwristiaid.
R17.8	Cwestiynau Cyffredinol		
R17.8.1	Yr Ymgeisydd	D10	Disgwylir 'Canllaw i'r Cais' terfynol ar D10. Diweddarau adrannau 1 a 2 y ddogfen hon i adlewyrchu newidiadau a wnaed i'r cais yn ystod yr archwiliad (e.e. dileu/newid 2.3.23 mewn perthynas â'r cysylltiad â'r grid; diweddarau tablau 2-4 a 2-5 i adlewyrchu newidiadau i ddogfennau a diwygiad i gynnwys cyfeiriad at A106). Dylid cynnwys adran arall (2.6) sy'n rhoi manylion unrhyw ddiwygiadau i'r cais a gosod allan manylion y cais fel y'i harchwiliwyd. Darparu fersiwn glân a fersiwn sy'n olrhain newidiadau.
R17.8.2	Yr Ymgeisydd	D10	Rhoi diweddariad terfynol ar gynnydd mewn perthynas â chaniatadau a thrwyddedau Eraill.
R17.8.3	Yr Ymgeisydd	D9	(a) Gan gyfeirio at Ddatganiad Polisi Cenedlaethol EN-6 Cyfrol I paragraff 3.16 ac ardaloedd Ardal Datblygu Wylfa Newydd sydd y tu allan i ardal safle 'enwebydd' Wylfa a ddangosir yn Natganiad Polisi Cenedlaethol EN-6 Cyfrol II, a'r sylwadau o fewn Datganiad Cynllunio [APP-406] y cais gan gynnwys paragraffau sy'n dechrau

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
			gyda 6.5.14, a yw'n glir pam fod y fynedfa i'r safle a strwythurau cysylltiedig yn y lleoliad a gynigir? (b) Os yw'r Ymgeisydd o'r farn bod y wybodaeth hon wedi'i darparu eisoes, dylid cadarnhau ym mha ddogfen(nau) y mae i'w chael.
R17.8.3	Yr Ymgeisydd	D10	Ymateb i sylwadau a wnaed gan bartion â buddiant ar D9.
R17.8.4	Yr Ymgeisydd	D9	a) beth yw gallu'r cysylltiad grid presennol? b) A fyddai ar gael i Brosiect Wylfa Newydd? c) Ar ba bwynt y byddai angen cysylltiad grid newydd yn ystod oes y prosiect ac a all yr ymgeisydd ddiweddarau'r datganiad cysylltiad [APP-403] â'r grid mewn newidiadau trac? d) Yng ngoleuni datblygiadau diweddar, darparwch Ddatganiad o Dir Cyffredin wedi'i ddiweddarau gyda'r Grid Cenedlaethol [REP6-043].
R17.8.5	Yr Ymgeisydd	D9	Mae paragraff 1.5.1, ar dudalen 52 o 58 o REP8-012 yn cyfeirio at Atodiad 16A o REP5-002. A fyddech cystal â chadarnhau lle mae Atodiad 16A i'w weld. Os nad yw Atodiad 16A o flaen yr archwiliad a'ch bod yn dymuno iddo gael ei ystyried, cyflwynwch y ddogfen os gweli di'n dda
R17.9	Dylunio Da		
R17.9.1	Yr Ymgeisydd	D9	Sylwadau ar y cynnig, er ei fod dros dro, bod Campws y Safle yn ddatblygiad mawr, amlwg ac o ganlyniad mae'n bosibl y byddai'n werth sicrhau y byddai'r broses ddylunio yn elwa ar gyngor gan Gomisiwn Dylunio Cymru wedi'i osod yn y Datganiad Dylunio a Mynediad.
R17.10	Rheoli Gwastraff a Rheoli Gwastraff Ymbelydrol		
R17.10.1	Yr Ymgeisydd	D9	Mewn perthynas â Gwaith Rhif 1D ac adeiladau 9-201 a 9-202 a chyflwyniad D8 Atodiad 1-11 Nodyn Ôl-wrandawriad [REP8-011] ar Ymddangosiad Datgomisiynu'r Safle dros gyfnod o 140 mlynedd, dylid ymateb gydag unrhyw sylwadau pellach i:

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
			<p>(a) [REP7-035] ac yn arbennig y cais gan PAWB 'y dylai unrhyw argymhelliad gan yr Arolygiaeth Gynllunio i gymeradwyo DCO Wylfa Newydd fod yn destun, ymhlith materion eraill, darpariaeth opsiynau cynlluniau rheoli tirwedd ac ecolegol mwy manwl ac wedi'u cyllido'n llawn ar gyfer y Storfeydd Dros Dro a'r safle cyfagos yn y cyfnod datgomisiynu ac ar ôl y datgomisiynu, gan gynnwys y posibilrwydd y bydd y storfeydd yn parhau am gyfnod amhenodol neu am byth yn ddiodyn.'</p> <p>(b) cais J Chanay yn [REP7-036] am esboniad sut y bydd yr agweddau canlynol sy'n ymwneud â Gwaith Rhif 1D yn cael eu rheoli, eu cynnal, eu hariannu ac unrhyw effeithiau gweledol a sŵn negyddol yn cael eu nodi a'u lliniaru yn ystod cyfnod adeiladu a gweithredu oes yr adeiladau:</p> <ol style="list-style-type: none"> i. adeiladu'r ddau Gyfleuster hyn ar gyfer storio pob Gwastraff Ymbelydrol Lefel Ganolradd a Gweddillion Tanwydd a gynhyrchir gan y ddau UK ABWR a gynigir yn Wylfa; ii. gweithredu, cynnal a chadw, atgyweirio, adnewyddu ac ymestyn y ddau Gyfleuster yn ddiogel (fel y mae angen yn y dyfodol) dros y cyfnod oes arfaethedig o 140-160 mlynedd yr un; iii. pecynnu a gwacáu holl gynnwys y ddau gyfleuster i'w gwaredu'n barhaol mewn Cyfleuster Gwaredu Daeargol (GDF) yn rhywle; a, iv. datgomisiynu a datgymalu terfynol a chael gwared yn llwyr ar y Cyfleuster Storio Gwastraff Ymbelydrol Lefel Ganolradd a'r Cyfleuster Storio Gweddillion Tanwydd o safle Wylfa. <p>(c) Y beirniadaethau mewn ymatebion blaenorol mewn perthynas â statws cynllunio adeiladau 9-201 a 9-202 yng nghyflwyniad J Chanay ar D8 [REP8-078].</p> <p>(ch) Darparu datganiad diamwys o farn yr Ymgeisydd am statws cynllunio 9-201 a 9-202 a bod y dystiolaeth a'r profion gofynnol i gyfiawnhau barn yr Ymgeisydd wedi'u gosod allan yn yr Archwiliad.</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
			(d) Ystyried a ddylid cyfeirio'n benodol at Waith Rhif 1D ac adeiladau 9-201 a 9-202 a'r Cyfleuster Ail-becynnu Tanwydd a gynigir (nad yw o fewn y DCO) yng Ngofyniad PW10 Cynllun Datgomisiynu Wylfa Newydd y dDCO a darparu geiriad ychwanegol os yw hynny'n briodol.

National Infrastructure Planning
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Customer 0303 444 5000
Services:
e-mail: wylfa@planninginspectorate.gov.uk

To Interested Parties as listed below

Your Ref:

Sent by email

Our Ref: EN010007

Date: 3 April 2019

Dear Sir/Madam

**Planning Act 2008 (as amended) Section 89 and The Infrastructure Planning
(Examination Procedure) Rules 2010 (as amended) and Rule 17**

**Application by Horizon Nuclear Power for an Order Granting Development
Consent for the Wylfa Newydd Project**

Request for Further Information

We are writing to inform you of the request for further information by the Examining Authority (ExA) which is set out in Annex A to this letter and includes questions to the following parties:

- Horizon Nuclear Power (The Applicant)
- Isle of Anglesey County Council (IACC)
- Natural Resources Wales (NRW)
- Welsh Government (WG)
- CADW
- National Grid Electricity Transmission (NGET)
- SPMANweb
- Welsh Water
- Nuclear Decommissioning Authority (NDA)
- Magnox
- Network Rail

Please respond by the deadlines set out in Annex A which are either **Deadline 9 – Wednesday 10 April 2019** or **Deadline 10 - 17 April**.

